Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Gweithio Integredig a Chymorth i Deuluoedd/Dechrau'n Deg
Gofal Plant a Sgiliau Sylfaenol

**SWYDD:** Gweithiwr Gofal Plant Dechrau'n Deg

**GRADD Y SWYDD:** Gradd 5

**YN ATEBOL I'R:** Arweinydd Tîm Gofal Plant Dechrau'n Deg

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Prif ddiben y swydd hon yw cynorthwyo'r lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd gan ddarparu amgylchedd diogel a chyffrous lle bydd plant yn datblygu ac yn dysgu a chyflawni eu cerrig milltir datblygu.

Mae'r swydd hon yn cyfrannu at brif nod y Gyfarwyddiaeth, sef helpu'r holl blant a phobl ifanc i:

- ffynnu a gwneud y defnydd gorau o'u talentau;
- byw bywydau iach a diogel;
- bod yn unigolion hyderus a gofalgar;
- Gwybod a derbyn eu hawliau.

Gan weithio mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg byddwch yn gweithio gyda phlant 2-3 oed, gan eu helpu i ddatblygu, dysgu a chwarae, darparu safon uchel o ofal corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol i blant Dechrau'n Deg.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyfrannu at gynllunio a goruchwylio gweithgareddau gan ddefnyddio athroniaeth ac ethos rhaglen Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, gan weithredu gweithgareddau dyddiol gyda'ch cydweithwyr sy'n diwallu anghenion a chamau datblygu, yn briodol i oedran y plant.

- Cyfrannu tuag at gynllunio tymor byr a hirdymor yn unol ag amcanion y cwricwlwm i gynorthwyo arfer sy'n briodol o ran datblygiad ac athroniaeth rhaglen. Arsylwi, asesu a chynllunio ar gyfer anghenion unigol plant

- Trefnu'r amgylcheddau dysgu gofal plant dan do ac yn yr awyr agored yn unol â nodau ac athroniaeth y rhaglen, gan helpu plant i ddysgu drwy weithgareddau a chwarae, gan ddarparu amgylchedd ysgogol, gofalgar a

diogel i'r plant yn eich gofal. Cyfrannu at weithgarwch i ddatblygu datblygiad iaith gan gynnwys darllen straeon a darparu gweithgareddau eraill â ffocws. Bod yn ymwybodol o iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd i gadw plant yn ddiogel.

- O dan oruchwyliaeth gweithio'n agos gyda rhieni gan gyfnewid gwybodaeth am ddatblygiad eu plentyn, a chynnal cyfrinachedd. Cadw cofnodion priodol fel asesiadau, presenoldeb a thaflenni amser.
- Trefnu a storio teganau, adnoddau a deunyddiau i sicrhau trefn mewn ardaloedd gweithgaredd. Rhoi sylw i anghenion corfforol plant fel mynd i'r toiled, newid cewynnau ac ati.
- Rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch diogelu/amddiffyn plant.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Gofal Plant Dechrau'n Deg

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon.  Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Cymhwyster Lefel 3 priodol mewn Gofal Plant, fel y nodir yn Rhestr o Gymwysterau Derbyniol ar gyfer Gweithlu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cyngor Gofal Cymru.<br>• Sgiliau rhifedd / llythrennedd / TG da i Lefel 2.<br>• Cymwysterau Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd Cyfredol. | Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o ddarparu gwasanaethau amlasiantaeth.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o ddatblygu plant ac addysg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar.<br>• Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda phlant a'u teuluoedd mewn lleoliad blynyddol cynnar.<br>• Profiad o gynllunio gweithgareddau sy'n briodol o ran datblygiad i blant.<br>• Deall materion amddiffyn plant. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion.<br>• Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais.<br>• Trwydded yrru ddilys gyda mynediad i gar.<br>• Sgiliau cyfathrebu gwych.<br>• Gallu gweithio mewn tîm ac yn ôl eich menter eich hun.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | rhagweithiol.<br>• Ymrwymiad amlwg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.<br>• Parodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal neu wella datblygiad proffesiynol.<br>• Cadernid ac uniondeb<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | | |